BRITISH COUNCIL | Wales Cymru



# Arddangos Rhyngwladol Rhaglen Ymchwil Gweithredu

## Gwerthusiad Blwyddyn Un – Pwyntiau Allweddol

**Ruth Garnault M.Sc.**
**Hydref 2020**

www.britishcouncil.org

Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru'n perfformio **Rygbi: Annwyl i mi / Dear to me** gan Fearghus Ó Conchúir . Eisteddfod Genedlaethol 2019.

Llun gan: Iolo Penri.

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad yma'n rhan o broses barhaus i ddefnyddio diwylliant i hybu dylanwad rhyngwladol Cymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Ryngwladol ym mis Ionawr 2020. Mae'n cynnwys tri uchelgais craidd: Codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, tyfu ei heconomi a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae'r Strategaeth yn nodi: *"Bydd diplomyddiaeth ddiwylliannol, neu bŵer meddal, yn allweddol i godi'n proffil rhyngwladol. Defnyddiwn ein holl asedau diwylliannol i'r eithaf."* [1]

Mae strategaeth ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC), a baratowyd gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru (CRhC), yn ymroi i *"adeiladu ar allu sector celfyddydau Cymru i ymgysylltu a chymryd rhan yn rhyngwladol."* [2]

Yn 2018, comisiynodd British Council Cymru S*trategaeth Arddangos Celfyddydau Cymru yn Rhyngwladol: Adroddiad Ymchwil*. Ynddo cyflwynwyd argymhellion i sector y celfyddydau a Llywodraeth Cymru eu hystyried a'u datblygu. Dau o'r argymhellion hynny oedd:

a) archwilio platfformau arddangos a digwyddiadau rhyngwladol sy'n bodoli eisoes ac sydd o ddiddordeb i'r sector yng Nghymru.

b) Datblygu rhaglen i gynrychiolwyr rhyngwladol o gwmpas digwyddiad arddangos mawr yng Nghymru

Yn ystod 2019 a 2020 cyflawnodd British Council Cymru Ymchwil Gweithredu i gefnogi'r ddau argymhelliad uchod. Canlyniadau'r gwaith yna yw testun yr adroddiad hwn.

I hwyluso datblygiad rhaglen i gynrychiolwyr rhyngwladol gallai Cymru wneud cais i gynnal rhai o ddigwyddiadau crwydrol y diwydiant rhyngwladol. Byddai hynny'n golygu targedu platfformau a fyddai'n dangos Cymru ar ei gorau a chynnig cyfleoedd i arddangos wrth ennill cydnabyddiaeth ac enw da fel lle i gynnal cyflwyniadau a thrafodaethau. Mae'r ymchwil yma'n cyflwyno digwyddiadau arddangos sy'n crwydro'n rhyngwladol y gellid eu cynnal yng Nghymru.

Ochr yn ochr â hyn gellid ystyried ychwanegu rhaglen ar gyfer cynrychiolwyr rhyngwladol i ddigwyddiad sydd eisoes yn cael ei gynnal yng Nghymru gan ddarparu cyfle arddangos i'r diwydiant fel rhan o ddigwyddiad cyhoeddus. Mae'r ymchwil yma'n trafod enghreifftiau o raglenni llwyddiannus i gynrychiolwyr rhyngwladol gan gynnwys y rhan y mae'r British Council yn ei chwarae yng Ngŵyl Caeredin. Mae hefyd yn cyflwyno gwyliau sydd eisoes yn cael eu cynnal yng Nghymru y gellid ychwanegu rhaglen i gynrychiolwyr atynt, fel Gŵyl y Llais a'r Eisteddfod Genedlaethol

Llwyddodd yr Ymchwil Gweithredu ar Arddangos Rhyngwladol i archwilio effeithiolrwydd presenoldeb Cymru mewn gwahanol blatfformau arddangos rhyngwladol drwy gefnogi ymarferwyr o Gymru i fynychu digwyddiadau o'r fath ac adrodd yn ôl ar werth y profiadau hynny. Mae'r ymchwil yn cyflwyno saith o argymhellion i gynyddu effeithiolrwydd o ran cynyddu proffil rhyngwladol Cymru wrth fynychu digwyddiadau arddangos.

Er nad yw'r British Council yn comisiynu na chynhyrchu gwaith creadigol, mae'r ymchwil yn cyflwyno tri argymhelliad i gyrff ariannu a chomisiynu eu hystyried er mwyn gwneud y defnydd gorau posib o asedau diwylliannol.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno crynodeb o weithgareddau Blwyddyn Un a'r deilliannau dysgu. Mae'n gorffen gyda chyfres o bwyntiau i'w trafod ymhellach. Mae'r adroddiad yn cynnig meysydd ymchwil i British Council Cymru ar gyfer Blwyddyn Dau'r rhaglen ymchwil, gan gofio'r newidiadau yn y tirlun arddangos rhyngwladol a ddaw yn sgil y pandemig byd-eang ac wedi i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

[1] Strategaeth Ryngwladol, cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru 2020 t6 a t10

[2] Celf Cymru: yn bont o'n bro i'r byd: Strategaeth Ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru. Dim dyddiad ond mae cyfeirnodau yn y testun yn awgrymu 2018.

# Argymhellion llawn ar gyfer arddangos rhyngwladol effeithiol

### Sicrhau bod gwaith paratoi yn digwydd ymlaen llaw

- Dylid craffu ar geisiadau ariannu ymlaen llaw i sicrhau bod ymchwil digonol wedi'i wneud a bod y sawl sy'n mynychu a'r platfform a fynychir yn addas.
- Dylai'r cyllidwyr holi am yr amcanion y tu ôl i fynychu platfform, a dylai'r mynychwyr fod yn meddwl am eu hamcanion ar gyfer mynychu platfform. Oes gwaith penodol y maent am ei weld? Ydyn nhw'n awyddus i gysylltu â phobl neu gynrychiolwyr penodol?
- Pan fo modd, dylid ffurfio cysylltiadau ymlaen llaw – gyda sefydliadau o Gymru a/neu'r Deyrnas Unedig sy'n gweithio dramor a allai helpu o ran ffurfio neu awgrymu cysylltiadau, a chanfod a chysylltu â chyd-gynrychiolwyr o ddiddordeb.

### Sefydlu protocolau am yr hyn a ddisgwylir gan gynrychiolwyr yn gyfnewid am gefnogaeth ariannol

Gan fod y fath amrywiaeth o ddigwyddiadau, dim ond awgrymiadau yw'r canlynol am yr hyn y gallai protocolau eu cynnwys:

- Sicrhau o leiaf nifer x o gysylltiadau cryf iawn, nifer x o gysylltiadau addawol iawn – ac nid o'r Deyrnas Unedig yn unig
- Disgwyliad clir y bydd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio er budd ehangach:
    - Rhannu a chael gwybodaeth gan o leiaf x o sefydliadau'r celfyddydau yng Nghymru cyn gadael, fel y gallwch weithredu fel cynrychiolydd ar ran y sector.
    - Dangos tystiolaeth o ddosbarthu deunydd marchnata neu ddeunyddiau eraill, ar gyfer y cwmni yr ydych yn ei gynrychioli a chwmnïau eraill.
    - Dangos tystiolaeth o sut y buoch yn llysgennad ar ran Cymru, yn ogystal ag ar ran eich sefydliad. (Fuoch chi'n aelod o banel? A ofynnoch chi gwestiynau perthnasol ar ôl nodi eich bod o Gymru? A rannoch chi esiamplau o arfer da yng Nghymru? A wnaethoch chi gyfryngu cyfarfodydd a chysylltiadau?)
    - Rhaeadru yr hyn a ddysgoch a'r cysylltiadau a wnaed i weddill y sector (ee cynnal seminar ar-lein, ysgrifennu erthygl i *Wales Arts Review*, siarad gyda *Beth Nesa? / What Next?*.)

Os nad yw unigolyn yn gallu gwneud hyn, dylent nodi'n glir pam felly. Efallai nad yw'r digwyddiad arddangos dan sylw o werth i Gymru bellach. Byddai hyn yn sicrhau nad yw adnoddau'n cael eu gwario heb fawr ddim budd.

Mae angen i rwydweithio fod yn fwy na dim ond 'cwrdd â phobl'. Er mwyn gallu rhannu'r hyn a ddysgwyd gydag eraill a sicrhau set data y gellir ei defnyddio yn y dyfodol, dylai fod disgwyl i'r cynrychiolydd ddarparu:

- Tystiolaeth o sut y digwyddodd y rhwydweithio
- Tystiolaeth o bethau diriaethol a allai ddeillio o'r cyfarfodydd
- Tystiolaeth o weithgarwch sy'n arwain at gyrraedd nodau disgwyliedig (ee cynydd o ran teithio cynyrch)[3]

### Mentora, hyfforddiant a datblygu sgiliau

Dylai'r British Council, Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Chymru Greadigol gydweithio i ddarparu hyfforddiant i gynhyrchwyr a chynrychiolwyr am sut i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd arddangos. Dylid mentora a chynnig cyngor i gynrychiolwyr sy'n mynychu digwyddiad am y tro cyntaf.

### Adolygu'r dewis o ddigwyddiadau arddangos yn gyson

"Mae digwyddiadau arddangos da a digwyddiadau rhyngwladol da yn wirioneddol ddefnyddiol. Ond rwy'n pwysleisio 'da'. Mae'n bwysig ein bod ni'n **gwerthuso ansawdd y digwyddiadau'n gyson yn ogystal â'r canlyniadau a ddaw yn eu sgil**. Hefyd, mae'n hollbwysig mai blaenoriaethau'r sector ar yr adeg benodol yna sy'n ein gyrru, yn ogystal â sicrhau ein bod ni'n effro i ddigwyddiadau arddangos neu ddigwyddiadau rhyngwladol newydd a allai ateb ein gofynion yn well." [4]

### Anfon yr un bobl fwy nag unwaith

"Mae pobl yn cofio pobl, dydyn nhw ddim o anghenraid yn cofio sefydliad neu gwmni neu genedl heb y person y maen nhw'n ei gysylltu â'r corff hwnnw."[5] Mae mynychwyr yn elwa fwyaf o fod yn bresenoldeb cyson mewn un digwyddiad penodol a datblygu eu cysylltiadau a'u gwybodaeth yn rhinwedd hynny. Mae buddsoddiadau dros dymor hirach yn allweddol i dyfu ein proffil rhyngwladol.

[3] Simon Harris Caeredin 2019 t10
[4] Cynrychiolydd – gŵyl Celtic Connections
[5] Adroddiad IETM ar arddangos ar gyfer British Council Cymru, Catherine Paskell t1

*Mae buddsoddi mewn perthnasoedd dros gyfnod hir yn meithrin ymddiredaeth a chysylltiadau, fel y gall artistiaid greu gwaith yn rhyngwladol yn y dyfodol a sicrhau bod hyrwyddwyr rhyngwladol yn gallu bwcio cynhyrch sy'n teithio. Bydd Cymru'n elwa ar well cyfleoedd arddangos yn sgil y rhwydweithiau hyn sy'n tyfu drwy ymddiriedaeth a chyfeillgarwch."*
*Cynrychiolydd*

**Anfon mwy nag un person, a chwestiynu'r rhesymau dros ddanfon mwy na thri yn drylwyr**

Er bod nifer o gynrychiolwyr wedi teithio ar eu pennau eu hunain, cyfeiriodd ymatebwyr at fanteision amlwg presenoldeb mwy nag un person mewn digwyddiad. Ond, dylai'r angen i ddefnyddio adnoddau'n ofalus ac argyfwng yr hinsawdd gymell cyllidwyr i ystyried y rhesymau dros anfon dirprwyaethau mawr yn ofalus. Mae angen cydgysylltu ar draws Llywodraeth Cymru, y British Council, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Wrth anfon mwy nag un person, dylid anelu am gyfuniad o ymarferwr profiadol ac ymarferwr llai profiadol; ac ymarferwr sy'n rhan o sefydliad ac ymarferwr annibynnol.

**Cynyddu aelodaeth cwmnïau ac unigolion o Gymru o rwydweithiau byd-eang a rhwydweithiau'r Undeb Ewropeaidd**

Am €100, mae aelodaeth unigol o'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer y Celfyddydau Perfformio Cyfoes (IETM) yn fwy fforddiadwy na'r rhan fwyaf o blatfformau rhyngwladol. Dylid llongyfarch Celfyddydau Rhyngwladol Cymru am weithio i annog aelodaeth ehangach o IETM ac am ddenu digwyddiad *Celfyddydau Mewn Ardaloedd Gwledig* i Landudno. Wrth rwydweithio, bydd artistiaid yn creu cysylltiadau a fydd yn meithrin cyfleoedd arddangos. *"Y bobl sy'n gallu cyfrannu fwyaf i'r rhwydwaith sy'n cael y budd mwyaf ohono"*. Gweler atodiad 14 am wybodaeth am aelodaeth o Gymru ar hyn o bryd. Dylai'r aelodau o Gymru gynnig syniadau am sesiynau i IETM gan ddilyn model gweithgor *Celfyddydau Mewn Ardaloedd Gwledig*. Ystyriwch sut y gallai aelodaeth strategol weithio a'r ffyrdd y gall sefydliadau gefnogi ei gilydd.

Er enghraifft, os yw cwmni cenedlaethol yn aelod, fe ddylent o bryd i'w gilydd anfon cynrychiolydd nad sy'n rhan o'r tîm rheoli neu aelod o'u gweithlu llawrydd.

**Edrych yn fanwl ar Enillion ar Fuddsoddiad ac effaith amgylcheddol**

Dadansoddi deilliannau a chanlyniadau i werthuso Enillion ar Fuddsoddiad pob ymweliad. Er enghraifft, os mai pobl o'r Deyrnas Unedig y mae unigolyn yn cwrdd â nhw'n bennaf pan fo'n teithio i Efrog Newydd, dylid archwilio dulliau rhwydweithio mwy cost-effeithiol.

**Adeiladu ar ein cryfderau**

"Os oes meysydd lle mae gan Gymru gryfderau, fel iaith neu *genre* penodol, chwiliwch am gyfleoedd rhyngwladol strategol".[6] Nod Strategaeth y British Council ar gyfer y Celfyddydau yw sicrhau bod y byd yn edrych i gyfeiriad y Deyrnas Unedig am arweiniad ar ddatblygu polisi ac arfer o ran lle diwylliant wrth hybu cynhwysiant, cynrychioli lleisiau sy'n cael eu gwthio i'r cyrion a mynediad i'r celfyddydau."[7] Mae Cynllun Rheoli Prosiect British Council Cymru yn nodi'r meysydd arbenigol canlynol yng Nghymru: ymarfer sy'n effro'n gymdeithasol, celfyddydau ac addysg (Dysgu Creadigol), cyfranogiad, cyfraniad y celfyddydau i adfywio, a'r celfyddydau fel rhan o newid cymdeithasol.[8]

**Wrth ystyried gwaith i gynrychioli Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, rhoi blaenoriaeth i ansawdd y gwaith yn anad dim**

"Dylid ffocysu ar y gerddoriaeth neu'r artistiaid yr ydym yn teimlo sydd gryfaf o ran ansawdd a'r galw amdanynt – i dorri llwybr at gyfleoedd rhyngwladol yn ogystal â bod yn gyfrwng i ddenu cyfleoedd i mewn i Gymru."[9] Mae ymchwil Dr Mordsley yn cadarnhau bod cynrychiolwyr sy'n ymweld â Gŵyl yr Ymylon yng Nghaeredin yn awyddus i ddarganfod "gwaith newydd ac arloesol". Mae hyn yn ategu argymhellion ein *Strategaeth Arddangos Celfyddydau Cymru yn Rhyngwladol.*

**Galluogi artistiaid i arwain y ffordd**

Dylai artistiaid a sefydliadau creadigol fod yn gosod yr agenda drwy gyfrwng y cynnwys y maent yn ei greu. Bydd galluogi artistiaid i arwain y ffordd y mae Cymru'n cael ei chyflwyno "yn golygu y byddwn yn llai tebygol o ddibynnu ar yr un hen ystrydebau am ddiwylliant Cymru. Ond dim ond drwy sicrhau'r adnoddau priodol ac amser paratoi digonol y bydd hyn yn digwydd."[10]

[6] Cynrychiolydd – Ymchwil Gweithredu
[7] Strategaeth ar gyfer y Celfyddydau – British Council t21
[8] Cynllun Rheoli Prosiect British Council Cymru t6
[9] Cynrychiolydd – Ymchwil Gweithredu
[10] Cynrychiolydd – Ymchwil Gweithredu

# Argymhellion i ddatblygu digwyddiadau arddangos penodol

### Gŵyl The Great Escape (TGE)

Mae gŵyl *The Great Escape* yn Brighton yn ddigwyddiad o bwys â chyrhaeddiad rhyngwladol: Ni ddylai cyllidwyr o Gymru deimlo'n anghyfforddus am gefnogi gwaith sy'n teithio i Loegr gan ei fod yn farchnad o bwys i waith o Gymru, ac yn gyfrwng cost-effeithiol i gwrdd â chynrychiolwyr rhyngwladol.

Nododd un ymatebwr bod tuedd i ffafrio datblygu ar hyd llwybrau Celtaidd (fel y mae rhaglen Gŵyl Gerddoriaeth Dulyn yn ei awgrymu, a'r nifer o bobl o Gymru sy'n mynychu *Celtic Connections* yn yr Alban). Er bod cerddoriaeth Geltaidd yn haeddu cefnogaeth, roedd yr ymatebwr o'r farn mai rhan o'r darlun cerddorol ydyw, yn hytrach na'r prif ffocws.

- Ymchwilio i bosibiliadau cynnal parti TGE – fel mae llawer o wledydd yn ei wneud. Byddai'n rhoi dychweliad da ar fuddsoddiad.

### Aelodaeth o'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Celfyddydau Perfformio Cyfoes (IETM)

- Ymchwilio i bosibiliadau cynnal Cyfarfod Llawn yn canolbwyntio ar arbenigeddau Cymru. Byddai digwyddiad o'r fath yn denu tua 500 o aelodau i Gymru.

### Spring Forward (Aerowaves)

Mae *Spring Forward* yn arddangos gwaith sy'n barod i'w deithio ac mae'n cael ei lywio gan aelodau *Aerowaves*. Mae un sefydliad o'r Deyrnas Unedig yn aelod sef: *The Place*, yn Llundain. A fydden nhw'n gweld cynnig dawnswyr o Gymru fel rhan o'u rôl?

- Angen i sector dawns Cymru ymgysylltu â The Place
- Ymchwilio i bosibiliadau cynnal Spring Forward neu ddigwyddiad tebyg dan adain Aerowaves.

### Atelier Cymdeithas Gwyliau Ewrop (EFA)

- Hybu'r gwaith o godi proffil EFA yng Nghymru fel bod mwy o gynrychiolwyr o wyliau o Gymru'n mynychu, a allai arwain at gyfle i gynnal y digwyddiad yma yn y dyfodol.
- *"Byddai'n dda i ledu'r gair drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, BAFA, y gwyliau mawr (ee Gŵyl y Llais, Gŵyl y Gelli, Yr Eisteddfod) i weld os gall mwy o gynrychiolwyr fynychu i rwydweithio a gweld gwaith [ayb]."*
- Ymchwilio i bosibiliadau cynnal Atelier i gydfynd ag un o wyliau mawr Cymru.

### Targedu cyfryngau digidol amgen i arddangos cerddoriaeth

*"Cyfeirio rhai adnoddau i sicrhau bod unrhyw ddefnyddiwr rhyngwladol yn gallu cael at gerddoriaeth o Gymru neu sefydliadau cerddoriaeth yng Nghymru"*. Mae Tŷ Cerdd yn cynrychioli cerddoriaeth draddodiadol (yn bennaf); mae Focus Wales yn gweithio'n rhyngwladol ym maes roc a phop; ac mae Trac yn gweithio gyda'r sector gwerin a thraddodiadol.

- Datblygu un porth digidol penodol i Gymru a fydd yn cyfeirio defnyddwyr at *genres* neu arddulliau yn ôl y gofyn.

# Argymhellion ar gyfer sefydlu digwyddiad arddangos yng Nghymru

Mae Cynllun Rheoli Prosiect Arddangos Celfyddydau Cymru British Council Cymru yn manylu am y syniad o sefydlu digwyddiad arddangos nodedig yng Nghymru. Byddai Canolfan Mileniwm Cymru, Grŵp y Cwmnïau Cenedlaethol ac Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru yn arwain.[11] Byddai British Council Cymru yn datblygu digwyddiad atodol i gydfynd â'r platfform arddangos. Yn ystod cyfnod yr Ymchwil Gweithredu, newidodd Canolfan y Mileniwm elfennau o un o'i gwyliau pwysicaf, *Gŵyl y Llais*, gan gynnwys ei symud o'r haf i'r hydref a chynnal yr ŵyl dros benwythnos estynedig yn hytrach na thros bythefnos. Gallai hyn fod yn fanteisiol o ran cynnal digwyddiad ategol. Mae sefyllfa Covid-19 yn golygu y bydd ansicrwydd ynghylch digwyddiadau mawr am gryn amser.

Mae gwerthusiad Blwyddyn Un yn cyflwyno'r pwyntiau dysgu a'r argymhellion canlynol ar gyfer cynnal digwyddiad.

*Showcase Scotland*: Y sesiwn 'Rhyngweithio Gwib' oedd y digwyddiad unigol gorau. Mae hyn yn ategu canfyddiadau adroddiad y British Council ar Ŵyl Caeredin lle nododd 62.5% o'r ymatebwyr fod y cyfarfodydd strwythuredig a drefnwyd gan y British Council wedi bod yn 'ddefnyddiol iawn'.

Ystyried faint o ddigwyddiadau y dylid eu cynnal bob dydd. Mae *Showcase Scotland* yn cychwyn tua chanol dydd ac yn rhedeg tan yn hwyr y nos; gall hyn olygu fod cryn dipyn o bwysau ar y cynrychiolydd.

Ystyried hyd y digwyddiad. Efallai y byddai *Showcase Scotland* yn well dros dridiau yn hytrach na phedwar diwrnod. (Byddai hyn yn ffitio'n dda gyda'r drefn newydd sy'n cael ei hargymell ar gyfer *Gŵyl y Llais*).

Ystyried trefnu'r digwyddiad arddangos fel y gall pob cynrychiolydd fynychu a gweld yr holl ddigwyddiadau (fel *Spring Forward*) yn hytrach na gorfod dewis a dethol (fel *Celtic Connections*).

Ystyried cynnal cinio anffurfiol ar gyfer cynrychiolwyr sy'n mynychu am y tro cyntaf. Mae *Showcase Scotland* yn gwneud hyn ar gyfer menywod yn benodol ac "roedd pobl yn ei ystyried yn fenter gadarnhaol iawn".

Gyda golwg ar sefydlu digwyddiad arddangos yng Nghymru, nododd Gary Raymond nifer o elfennau ar ôl ei ymweliad dysgu â Gŵyl yr Ymylon yng Nghaeredin gan gynnwys: seilwaith trafnidiaeth – i leoliad yr ŵyl yn ogystal ag ar safle'r ŵyl; cysylltedd i hwyluso prynu tocynnau; strwythurau prisio gan gynnwys digwyddiadau am ddim a chynigion arbennig; a hyfywedd ariannol – gan gynnwys ar gyfer y cynhyrchwyr. Efallai mai'r elfen ariannol fydd yr ystyriaeth dyngedfenol. *"Does dim lle yng nghyllidebau cynhyrchwyr a chwmnïau cynhyrchu ar gyfer platfform arall sy'n llyncu arian fel Gŵyl yr Ymylon."*[12] Mae Atodiad 15 yn amlinellu deg o bwyntiau sy'n haeddu rhagor o ymchwil a thrafod.

[11] Cynllun Rheoli Prosiect Arddangos Celfyddydau Cymru t6
[12] Gary Raymond 2019 t10